

Crynodeb Gweithredol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**Ffyniant i Bawb:
y cynllun gweithredu
ar yr economi**

Crynodeb Gweithredol

Trosolwg

Diben y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yw helpu i gyflawni Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru. Mae ein Cynllun yn disgrifio'n gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol, wedi'i adeiladu ar seiliau cadarn, diwydiannau cryf y dyfodol a rhanbarthau cynhyrchiol.

Mae'r Cynllun yn hyrwyddo dau nod sef sicrhau twf yn yr economi a lleihau anghydraddoldeb.

Mae'n nodi sawl cynnig uchelgeisiol sy'n ymrwymo'r Llywodraeth i newid cyfeiriad ei pholisïau mewn amryw faes allweddol at un diben cyffredin, sef gweithio gyda busnesau ac eraill i wella cydnherthedd a pharatoi economi Cymru at y dyfodol.

Ers datganoli, rydym wedi cryfhau seiliau economi Cymru. Rydym yn perfformio'n dda yn y farchnad lafur gyda mwy o bobl yn gweithio nag erioed. Ers 2011, rydym wedi cefnogi dros 185,000 o swyddi ar draws Cymru ac mae ein cyfradd ddiweithdra yn is na chyfartaledd y DU. Mae gennym fwy o fusnesau nag erioed yn gweithredu yng Nghymru, ac mae mwy o fusnesau newydd yn cychwyn arni bellach nag a welwyd yn y ddegawd ddiwethaf.

Mae ein hallforion a'n lefelau Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor (FDI) yn parhau i wneud argraff sy'n dangos yr hyder sydd gan weddill y byd yn ansawdd busnesau,

cynhyrchion a gwasanaethau Cymru.

Er hyn, mae sawl mater lletchwith yn parhau megis anweithgarwch economaidd, lefelau cynhyrchiant cymharol isel ac anghysondeb o ran twf a chyfleoedd ar draws ein rhanbarthau. Ar ben hynny, mae'r bedwaredd oes ddiwydiannol yn cyflwyno heriau a chyfleoedd sylweddol ochr yn ochr â datgarboneiddio economi'r byd. Bydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn rhoi cyd-destun i'r ffordd y byddwn yn gweithredu'r Cynllun hwn ac yn ystyried y chyfleoedd a'r heriau a ddaw i'n rhan. Mae'r byd gwaith yn gyson newid a bydd hynny yn cyflwyno rhai o'r heriau polisi mwyaf dybryd dros y degawdau nesaf.

Mae effaith ar y cyd y grymoedd economaidd, amgylcheddol, technolegol a demograffig hyn yn galw am ffyrdd newydd o weithio. Mae llawer o fusnesau Cymru yn addasu i'r newid hwn ac yn bartneriaid allweddol yn ein ffordd o weithio. Gall prifysgolion wneud cyfraniad pwysig, drwy waith ymchwil a datblygu, arloesi a gwyddoniaeth, sy'n agwedd hanfodol ar fodloni'r agenda hon.

Fel llywodraeth, mae cyfrifoldeb arnom i weithio mewn partneriaeth i ymdrin â'r materion hyn yn uniongyrchol a thargedu ein cymorth a'n polisïau i bobl, busnesau a lleoedd sydd eu hangen i oroesi a ffynnu.

Mae'r Cynllun yn taro cydbwysedd rhwng yr angen am gamau gweithredu ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, gan gydnabod bod yr effeithiau i'w gweld heddiw ac yn y dyfodol. Mae'n atgyfnerthu'r berthynas gyda'n partneriaid wrth inni geisio sicrhau mwy o fudd cymdeithasol ac economaidd yn yr hirdymor. Bydd ein ffordd o weithio yn wahanol a bydd yn cynnwys cymryd risgiau, ond credwn fod y camau hyn yn gwbl angenrheidiol a bod tystiolaeth yn eu cyfiawnhau. Yn gyfnewid, byddwn yn sicrhau cynnig cadarn a mwy syml i bobl, busnesau a lleoedd.

Y Contract Economaidd

Mae'r Contract Economaidd yn ganolog i'n ffordd newydd o weithio. Bydd yn sylfaen i'r berthynas ddwyffordd rhwng y Llywodraeth a busnesau, ac yn ysgogi buddsoddiadau cyhoeddus ac iddynt ddiben cymdeithasol.

Bydd y Contract Economaidd yn rhan o'r cymorth ariannol uniongyrchol a rown i fusnesau. Byddwn yn edrych ar ehangu'r contract i gynnwys ein cynnig ehangach i fusnesau ac ar allu gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru i fabwysiadu'r egwyddorion hyn.

Bydd y Contract Economaidd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd am inni fuddsoddi ynddyn nhw ddangos y canlynol man lleiaf:

- Bod ganddynt y potensial i dyfu (wedi'i fesur er enghraifft gan eu cyfraniad at gyflogaeth, cynhyrchiant neu effeithiau lluosog drwy'r gadwyn gyflenwi).
- Gwaith Teg (fel y'i diffinnir gan y Bwrdd Gwaith Teg).
- Hyrwyddo iechyd, gan gynnwys pwyslais arbennig ar iechyd meddwl, sgiliau a dysgu yn y gweithle.
- Eu bod yn camu at leihau eu hól troed carbon.

Y Contract fydd y gofyn cyntaf bydd yn rhaid i fusnesau ei fodloni cyn y gwnawn ystyried eu cais am arian. Y Meysydd Gweithredu fydd yr ail gam.

Y Meysydd Gweithredu

Byddwn yn helpu busnesau i drechu heriau mawr y dyfodol a byddwn yn newid ein prif fecanweithiau cymorth i ganolbwyntio ar y Meysydd Gweithredu hyn. Bydd angen i unrhyw fusnes sy'n gofyn am ein help ariannol uniongyrchol ddatblygu cynigion sy'n ymateb ac yn cyfateb i o leiaf un o'r Meysydd Gweithredu:

- **Datgarboneiddio** - rydym am helpu mwy o'n busnesau i fod yn garbon-ysgafn neu'n ddi-garbon.
- **Arloesi, Entrepreneuriaeth a Phencadlys** - rydym am helpu busnesau i arloesi, i gyflwyno cynnyrch a gwasanaethau newydd ac i lwyddo.

- **Allforio a Masnachu** - rydym am fod yn rhagweithiol wrth gefnogi cyfleoedd masnachu â gweddill y DU a gweddill y byd.
- **Swyddi o'r Ansawdd Gorau, Datblygu Sgiliau a Gwaith Teg** - rydym am wella ein sylfaen sgiliau a sicrhau bod gwaith yn cael ei roi'n deg.
- **Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digiddeiddio** - rydym am helpu ein busnesau i ddatblygu a chyflwyno cynhyrchion newydd, i awtomeiddio ac i ddigideiddio i bara'n gystadleuol yn y bedwaredd oes ddiwydiannol.

Mae'r heriau hyn, a elwir yn Feysydd Gweithredu, wedi eu dewis yn ofalus i adlewyrchu'r materion y mae angen i fusnesau sy'n bodoli eisoes ymateb iddynt a'r materion y bydd angen i fusnesau'r dyfodol addasu iddynt.

Cronfa Dyfodol yr Economi

Rydym am symleiddio'r drefn i greu un Gronfa Dyfodol yr Economi gyfunol. Rydym yn ymateb i gais gan fusnesau am symlrwydd a'u disgwyl bod partneriaeth â'r Llywodraeth yn effeithiol ac effeithlon.

Bydd y Gronfa yn cael ei chysoni â'r pum Maes Gweithredu a'r Contract Economaidd, er mwyn helpu'r busnesau hynny sydd am addasu i dyfu.

Rydym yn cydnabod mai busnesau sydd yn y sefyllfa orau i ddeall y farchnad fyd-eang a'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ymyrryd. Am y tro cyntaf, byddwn yn annog grwpiau o fusnesau i gydweithio i ddatblygu cynigion herio sy'n bodloni gofynion y Meysydd Gweithredu. Byddwn yn ystyried cynigion fydd yn gweddnewid y busnesau eu hunain yn ogystal â chael effaith ehangach ar y rhanbarth. Byddwn yn eu hystyried yn ôl eu rhinweddau.

Sectorau Thematig Cenedlaethol

I gael yr effaith fwyaf, mae angen inni dargedu'n hadnoddau ariannol a'n cymorth. Mewn ymateb i'r amgylchedd economaidd sy'n gyflym newid, a'r ffaith bod ffiniau sectorau yn uno, rydym yn symleiddio ein ffordd o weithio sy'n sail i dri sector thematig. Byddwn yn targedu ein cymorth ar y tri sector a ganlyn:

- Gwasanaethau y gellir eu masnachu
- Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth
- Galluogwyr

Bydd y cymorth a gynigwn yn gysylltiedig â'r Contract Economaidd a'n Meysydd Gweithredu.

Sectorau Sylfaen

Mae'r Economi Sylfaen yn rhan o'r economi sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol, ac mae'n chwarae rhan bwysig ym mywyddau

pobl a chymunedau. Byddwn yn hoelio sylw ar nifer gyfyngedig o sectorau sylfaen:

- Twristiaeth
- Bwyd
- Manwerthu
- Gofal

Byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth ar amrywiaeth o faterion i helpu'r sectorau hyn, gan gynnwys datblygu sgiliau, a chreu modelau busnes a seilwaith newydd. Byddwn yn gweithio gyda'r sectorau i ddatblygu cynlluniau galluogi i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer twf ac arloesi, a mynd i'r afael â materion allweddol.

Gofal Plant

Byddwn yn cynnig 30 awr o addysg a gofal plant di-dâl i helpu teuluoedd sy'n gweithio er mwyn lleihau'r pwysau sy'n eu rhwystro rhag gweithio.

Datblygu'r Economi yn y Rhanbarthau

Mae gan bob un o'n rhanbarthau ei gyfleoedd a'i heriau unigryw ei hun. Rydym yn credu y bydd achub ar y cyfleoedd hynny a mynd i'r afael â'r heriau hynny drwy gydweithio mwy effeithiol ar draws rhanbarthau yn arwain at well canlyniadau.

Byddwn yn cyflwyno model newydd ar gyfer datblygu economaidd ar sail ranbarthol. Byddwn yn sicrhau mwy o gysondeb drwy waith ein Prif Swyddogion Rhanbarthol a

fydd yn hyrwyddo buddiannau a materion rhanbarthol o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn teilwra'r ffordd y byddwn yn cyflwyno'r model ar amrywiaeth eang o faterion. Mae ein hól-troed rhanbarthol yn cyfateb i'n hagenda ddiwygio ar gyfer llywodraeth leol a'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

Datgarboneiddio

Rydym wedi nodi'r trywydd ar gyfer trawsnewid i economi carbon isel a'r camau y byddwn yn eu cymryd i helpu busnesau i ddatgarboneiddio ac i ddefnyddio adnoddau yn effeithlon. Mae hyn oll yn gysylltiedig â'r gofyniad i fusnesau ddatgarboneiddio o dan y Contract Economaidd. Bydd hyn yn cynnwys ystod o weithgarwch a fydd yn amrywio o gefnogi'r economi gylchol i ddatblygu Cynllun Aer Glân i Gymru, ac ymgynghori arno.

Sgiliau a Dysgu Gydol Oes

Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd newydd i Gymru, gan symleiddio ein cynnig i bobl o bob oed sydd am gael swydd dda a pharhau i weithio yn y swydd honno. Bydd ein rhaglen cyflogadwyedd newydd, Cymru'n Gweithio, yn dechrau ym mis Ebrill 2019 a bydd yn ymateb i anghenion unigolion, cyflogwyr a'r farchnad lafur.

Byddwn yn asesu sgiliau sydd eu hangen ar yr economi, ac yn gweddu'r sgiliau i'r anghenion hynny, gan weithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ragweld yr anghenion o ran sgiliau yn y dyfodol. Byddwn yn cyflwyno system gynllunio strategol ar gyfer cyflenwi addysg a sgiliau ar draws addysg ôl-16 ac yn darparu o leiaf 100,000 o brentisiaethau ar gyfer pobl o bob oed sy'n diwallu anghenion ein heconomi.

Rydym yn cydnabod y rôl y mae ein prifysgolion yn ei chwarae ar draws y byd a phwysigrwydd economaidd y cysylltiadau buddiol a ddarparant i'r byd ehangach drwy eu myfyrwyr, eu gwaith ymchwil a'u perthynas â busnesau. Byddwn yn dwyn ynghyd yr holl gyllid a reolir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ymchwil er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru, gan gynnal y manteision sydd ynghlwm wrth gysylltiadau cenedlaethol a sefydliadol rhwng gwaith ymchwil, arloesedd a gwaith datblygu sgiliau. Byddwn yn annog ac yn hwyluso diwylliant entrepreneuriaidd yng Nghymru, ac yn pennu targedau ar gyfer nifer y myfyrwyr sy'n dechrau cwmnïau ar ôl gadael yr ysgol, coleg a phrifysgol.

Seilwaith

Byddwn yn ymrwmo i raglen pum mlynedd o gyllid cyfalaf ar gyfer trafndiaeth, i sicrhau bod prosiectau trafndiaeth yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac i ddarparu

mwy o sicrwydd i gyflenwyr fuddsoddi. Byddwn yn gosod prif darged er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd o 20% ar draws y portffolio buddsoddi pum mlynedd ar gyfer prosiectau newydd sy'n gyfwerth â channoedd o filiynau o bunnoedd.

Byddwn ar flaen y gad o ran datgarboneiddio ein rhwydweithiau trafndiaeth a gwella'r aer yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Byddwn yn cyflwyno amrywiaeth o fesurau sydd â'r nod o leihau ôl-troed carbon tacsis a bysiau yng Nghymru i sero o fewn deng mlynedd.

Byddwn yn darparu ar gyfer cynllunio defnydd tir ar sail ranbarthol ar draws Cymru. Byddwn yn datblygu modelau trafndiaeth manwl ar gyfer pob rhanbarth ar draws Cymru ac yn eu defnyddio'n sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth.

Caffael

Byddwn yn cyflwyno lefelau newydd o arloesedd ym maes caffael i gynyddu nifer y busnesau yng Nghymru, yn enwedig y rheini sydd â'u pencadlysoedd yma, gan sicrhau busnes oddi wrth y sector cyhoeddus.

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi yn cael ei fabwysiadu, ac yn

brwydro yn erbyn arferion cyflogi annheg ac anghyfreithlon. Byddwn yn alinio'r buddsoddiad mewn seilwaith â chynlluniau datblygu rhanbarthol er mwyn cynyddu effaith twf.

Masnachu a Buddsoddi

Byddwn yn meithrin cysylltiadau newydd ar gyfer masnachu a buddsoddi, yn diogelu'r partneriaethau sydd eisoes yn bodoli ac yn hyrwyddo Cymru yn effeithiol ar lwyfan y byd. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo busnesau yng Nghymru i fasnachu a buddsoddi drwy eu hannog i werthu dramor. Byddwn yn ehangu ein presenoldeb rhyngwladol ac yn cydweithio â phartneriaid eraill, gan gynnwys Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau eraill. Yn hyn o beth, byddwn yn pwysleisio pwysigrwydd ein perthynas ag Ewrop a'r byd ehangach, ac yn ystyried effaith ymadael â'r UE.

Cydweithio

Er mwyn inni wireddu ein huchelgeisiau i sicrhau twf cynaliadwy ac i leihau anghydraddoldeb, mae'n rhaid inni gyd chwarae ein rhan. Ond ni allwn wneud hynny ar ein pen ein hunain. Rydym am weithio gyda'n partneriaid a sicrhau bod gan y gwaith hwnnw ddiben cyffredin. Byddwn yn defnyddio pob ffordd bosib i wireddu'r uchelgeisiau sydd wedi'u nodi yn y cynllun

hwn, yn cryfhau cydnherthedd ac yn paratoi economi Cymru at y dyfodol.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw tryloywder ac mae hyn yn cynnwys galluogi eraill i ddeall y camau rydym yn eu cymryd. Mae'r dangosyddion llesiant cenedlaethol yn fframwaith clir a chyson ar gyfer mesur y canlyniadau yr ydym yn awyddus i'w gweld fel cenedl. Yn unol â'r strategaeth yn Ffyniant i Bawb, byddwn yn eu defnyddio i dracio cynnydd dros y tymor hwy.

Rydym yn ymrwymo i gydweithio â phartneriaid i roi prif elfennau'r Cynllun hwn ar waith. Ar ôl cyhoeddi'r Cynllun hwn, byddwn yn cynnal rhaglen o ymgysylltu a fydd yn dylanwadu ar y ffordd y byddwn yn ei gyflawni.